# Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF)

Nodiadau Arweiniol ar gyfer Ceisiadau 2026/27

**Mae cefnogaeth yr FCF yn ddewisol ac nid yn hawl. Mae terfyn ar y gronfa ac ni ellir gwarantu unrhyw ddyfarndal. Mae rhaniadau yn destun unrhyw newidiadau cyllid gall Llywodraeth Cymru eu gorfodi.**

## Ffurflen Gais

Defnyddiwch y ddolen hon i gael mynediad at y ffurflen gais FCF: FCF application form

Cyn llenwi'ch ffurflen gais FCF, darllenwch y canllawiau hyn yn ofalus.

Os nad ydych chi'n deall rhywbeth, neu os oes anhawster gyda chi'n cwblhau eich cais, cysylltwch â Swyddog Ariannol y Myfyrwyr.

**Swyddog Ariannol y Myfyrwyr:** [insert Student Finance Officer email address]

## Ydw i'n gymwys?

I fod yn gymwys i gael cymorth ariannol o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn rhaid i chi:

• Fod yn derbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA).

• Cael incwm cartref blynyddol o hyd at £30,000.

• Fod yn 16 oed neu'n hŷn ar 31 Awst 2025 ac wedi cofrestru ar gwrs addysg bellach llawn amser, neu gwrs rhan-amser os ydych wedi'ch nodi fel rhywun mewn gofal neu'n rhywun sy'n gadael gofal.

• Cael cofnod presenoldeb o 95% a chadw at Reolau Ymddygiad Dysgwyr y coleg.

• Fel arfer yn byw yn y DU neu wedi byw yn y DU am 3 blynedd cyn dechrau'r cwrs, neu'n gymwys fel 'myfyriwr cartref' mewn ffordd arall, fel bod yn ddinesydd yr UE neu'n ffoadur.

Yn anffodus, ni allwn gynnig cymorth CAW os ydych yn geisiwr lloches.

**Os ydych dros 19 oed:** bydd angen i chi geisio ar gyfer Grant Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth Cymru**.**
Canllaw Grant Dysgu Llywodraeth Cymru

**Newid mewn amgylchiadau:** Os bydd eich amgylchiadau yn newid, er enghraifft eich cwrs, nifer oriau astudio, trefniadau gofal plant neu amgylchiadau personol, rhaid i chi roi gwybod i ni.

## At beth mae angen cymorth ariannol arnoch chi?

Gellir darparu cymorth gyda'r canlynol:

**Costau teithio**

• Mae bysiau coleg ar gael o Gaerffili, Rhondda Cynon Taf (RCT) a Bro Morgannwg.

• Efallai y byddwch yn gymwys i gael tocyn bws am ddim. Bydd angen i chi wneud cais amdano drwy'r awdurdod lleol yn eich ardal.

• Os gwrthodir eich cais gyda'r awdurdod lleol, gall FCF eich helpu gyda chost lawn y tocyn bws.

• Os ydych chi'n byw dros 3 milltir o'r coleg, bydd FCF yn ariannu tocyn bws misol am gost o £49.00 a delir bob 4 wythnos.

**Cludiant â Chymorth**

• Cysylltwch â thîm ADY y coleg i ofyn am gymorth gyda chludiant**:** **hhughes@stdavidscollege.ac.uk**.

**Grant Offer**

- Bydd y grant yn talu tuag at gost prynu offer angenrheidiol ar gyfer eich cwrs.

**Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**

- Os yw gwiriad DBS yn ofyniad ar gyfer eich cwrs, gall y gronfa eich helpu gyda chost hwn..

**Gofal Plant**

- • Bydd y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn talu cyfraniad dyddiol tuag at gostau gofal plant.
- • Rhaid i'ch plentyn neu blant fod gyda gwarchodwr plant neu feithrinfa gofrestredig.

**Atebwch bob cwestiwn** er mwyn ein galluogi ni i asesu'ch cais yn gywir**.**

## Sut galla i ddarganfod os yw fy nghais yn llwyddiannus?

Bydd pob cyfathrebiad â chi drwy e-bost at eich cyfeiriad e-bost coleg.

## Beth os yw fy nghais yn aflwyddiannus?

Byddwn yn anfon gwybodaeth at eich cyfrif e-bost coleg.

Os hoffech chi apelio yn erbyn y penderfyniad, bydd 14 diwrnod gyda chi i wneud hynny, o ddyddiad yr e-bost.